

# Erthygl 50

# Talu'n ddrud

Gan fod Prydain yn mynd i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae cwmni Lego wedi cyhoeddi y bydd pris Lego yn codi 5 y cant yn ystod 2017. Pa bethau eraill allai gael eu heffeithio gan danio Erthygl 50 tybed?

Atebwch y cwestiynau hyn:

## O ba wlad y daw Lego?

[Ateb](#)

Denmarc

**Nodwch o ba wlad y daw'r ceir canlynol:**

- Volkswagen
- SEAT
- Fiat
- Renault
- Dacia

[Atebion](#)

- Volkswagen – Yr Almaen
- SEAT – Sbaen
- Fiat – Yr Eidal
- Renault – Ffrainc
- Dacia – Rwmania

**O ba wledydd yn Ewrop y daw'r caws canlynol:**

- Brie
- Caws Parma
- Manchego
- Edam

[Atebion](#)

- Brie - Ffrainc

- Caws Parma – Yr Eidal
- Manchego – Sbaen
- Edam – Yr Iseldiroedd

**O ba wledydd y daw'r cynnyrch melys canlynol:**

- **Nutella**
- **Haribo**
- **Chupa Chups**
- **Ferrero Rocher**

### Atebion

- Nutella - Yr Eidal
- Haribo - Yr Almaen
- Chupa Chups - Sbaen
- Ferrero Rocher - Yr Eidal

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
caws parma	caws caled a sych sydd yn cael ei roi ar ben pasta	parmesan cheese

# Beth mae *Brexit* yn ei olygu?

*“Brexit means Brexit”* medd Theresa,

“lawn te!” ebycha Wil Tŷ Isa’,

“Ond o hyn ymlaen,

pan af fi i Sbaen

A fydd angen i fi gael fisa?”

*Aneirin Karadog*

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
fisa	trwydded i gael teithio a gweithio tramor	visa

## Beth yn y byd yw Erthygl 50?

Mae Erthygl 50 yn rhoi'r hawl i unrhyw aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd i adael yr undeb.

Mae Erthygl 50 yn esbonio sut mae'r broses honno i fod i weithio. Mae Erthygl 50 yn un o'r adrannau sy'n cael ei nodi yng nghytundeb rhyngwladol Lisbon yn 2007.

Cyn i Gytundeb Lisbon 2007 gael ei lunio a'i arwyddo gan bob gwlad sy'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd, nid oedd modd i unrhyw wlad adael yr Undeb Ewropeaidd.

Unwaith y bydd gwlad yn penderfynu tanio Erthygl 50, mi fydd gan y wlad honno ddwy flynedd i ddod i gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd ar bob math o faterion, fel masnach, mudo, amaeth, pysgota a sawl maes arall.

Unwaith y bydd Erthygl 50 yn cael ei danio, nid oes modd dod â'r broses i stop nac ymestyn cyfnod y trafodaethau. Yr unig ffordd o allu gwneud un o'r ddau beth hyn yw drwy gael cytundeb ymhlith holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd fod achos dros naill ai oedi neu stopio'r broses, neu ymestyn cyfnod y trafodaethau yn gyfan gwbl.

Mae unrhyw gytundeb newydd rhwng y wlad sy'n gadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gorfod cael cytundeb mwyafrif o blith y gwledydd sy'n aelodau. Mae hawl gan Senedd Ewrop i wrthod y cytundeb newydd hefyd ar ôl hynny.

Mae Llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi, ar ôl cytundeb gan y pleidiau eraill yn Senedd San Steffan, y bydd Erthygl 50 yn cael ei danio ym mis Mawrth 2017. Mae hyn yn golygu y bydd Prydain wedi gadael Yr Undeb Ewropeaidd yn llwyr erbyn mis Mawrth 2019.

**Geirfa**

<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
erthygl	cymal mewn cytundeb rhyngwladol	article
masnach	prynu a gwerthu nwyddau	trade
mudo	symud i rywle pell i fyw a gweithio	(to) migrate
amaeth	y gwaith a wneir ar ffermydd	agriculture
llywodraeth	y corff sy'n rheoli'r wlad	government
pleidiau	grwpiau gwleidyddol sy'n ein cynrychioli	(political) parties

# Cyfandir o Hanes

## Hanes yr Undeb Ewropeaidd

Y prif reswm dros sefydlu undeb rhwng gwledydd Ewrop oedd yr holl ryfeloedd a fu, o'r Rhyfel Byd Cyntaf i'r Ail Ryfel Byd.

Sylweddolwyd bod creu undeb rhyngwladol, gan gydweithio mewn heddwch, yn fwy llesol i'r gwahanol wledydd.

Felly, ar Ionawr 1af, 1958, daeth 6 gwlad yn rhan o undeb a alwyd, ar y pryd, yn Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Y chwe gwlad oedd:

Ffrainc, Yr Eidal, Yr Almaen, Lwcsembwrg, Gwlad Belg, ac Yr Iseldiroedd.

Ar ôl cael ei gwrthod sawl gwaith yn ystod y 1960au, cafodd Prydain ymuno ym 1973.

Ym 1985, cytunwyd mai'r dôn ddi-air 'Ode To Joy', gan Beethoven, fyddai'r anthem ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd.

<https://soundcloud.com/classicalmusic-net/beethoven-ode-to-joy-1>

## Pwy ydw i?

Fe allwch fy nhanio  
ond nid wyf yn wn,  
rwy'n help wrth ffarwelio  
rhwng gwledydd mi wn.

Fe'm ganed yn Lisbon  
wrth drafod wrth fwrdd  
drwy eiriau nid ffrwydron,  
heb arfau yn cwrdd.

Rwy'n rhan o gytundeb,  
print, nid cig a gwaed,  
os gadael yr Undeb  
fy nhanio sydd rhaid.

Rwy'n waith i gyfreithwyr  
sy'n pwyso pob gair,  
rwy'n ias i gyfieithwyr  
sy'n ffoli'n y ffair!

Rwy'n ddechrau ar y daith,  
rwy'n ffordd i'r pen draw,  
dwy flynedd – nid yw'n faith -  
a'r diwedd a ddaw.

*Aneirin Karadog*

### Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cytundeb	sefyllfa lle mae dwy ochr yn cytuno	agreement
cyfreithwyr	arbenigwyr ar y gyfraith	lawyers
cyfieithwyr	pobl sy'n gweithio mewn sawl iaith	translators



# Mwy na dim ond geiriau

## A wyddoch chi fod gan Senedd Yr Undeb Ewropeaidd 24 iaith swyddogol?

Ers 1958, mae mwy a mwy o ieithoedd wedi dod yn rhan swyddogol o waith yr Undeb Ewropeaidd, wrth i wahanol wledydd ymuno.

Yn Senedd yr Undeb Ewropeaidd, felly, mae pob iaith swyddogol yr un mor bwysig â'i gilydd. Drwy ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd i siarad yn y senedd, a chyfieithwyr sy'n cyfieithu pob dogfen i 24 o ieithoedd, gall pob Aelod Seneddol Ewropeaidd o bob gwlad dderbyn gwybodaeth am ddeddfau newydd yn eu hiaith ei hunain. Mae cytundebau rhyngwladol rhwng gwledydd yn cael eu trafod a'u llunio mewn gwahanol ieithoedd o ganlyniad, ac felly mae'n hollbwysig fod yr ieithoedd yn cael eu cyfieithu'n gywir wrth drafod manylion cymhleth pob cytundeb. Gall un llythyren, heb sôn am un gair newid ystyr brawddegau'r cytundeb yn llwyr!

Yn hanesyddol, y Ffrangeg oedd yr iaith a ddefnyddid fwyaf wrth i gynrychiolwyr o wledydd gyfarfod y tu hwnt i Senedd yr UE, ond ers i'r UE ymestyn i gynnwys gwledydd o Ddwyrain Ewrop, daeth y Saesneg yn fwy poblogaidd fel iaith allai nifer fawr o gynrychiolwyr rhyngwladol ei siarad. Serch hynny, ers i Brydain bleidleisio i adael, dim ond Malta ac Iwerddon fydd ar ôl fel gwledydd sydd â'r Saesneg fel un o'u hieithoedd swyddogol. Felly, gallwn ni ddisgwyl gweld llai o'r Saesneg yn cael ei defnyddio rhwng gwledydd Ewrop a mwy o ieithoedd fel y Ffrangeg yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

Yn 2007, daeth yr iaith Wyddeleg yn un o ieithoedd swyddogol Senedd yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y Gymraeg yn cael ei chyfrif fel un o ieithoedd swyddogol y Deyrnas Unedig, roedd gan nifer o bobl yng Nghymru obaith y byddai'r Gymraeg yn dod yn un o ieithoedd swyddogol Senedd yr UE. Byddai hyn wedi caniatáu i Aelodau Seneddol Ewropeaidd o Gymru siarad Cymraeg ar lawr y senedd. Ond gyda'r Deyrnas Unedig yn gadael, ni fydd y breuddwyd hwnnw yn cael ei wireddu.

**Geirfa**

<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
deddfau	dogfennau sy'n nodi beth yw'r gyfraith	laws
swyddogol	mewn sefyllfa ffurfiol	official
y Deyrnas Unedig	yr enw ar wladwriaeth Prydain	the United Kingdom

# Byd yn ei le

## Hywel Holi:

Croeso i chi i bennod arall o 'Byd yn ei Le' gyda fi, Hywel Holi. A heno, yn trafod y pwnc cymhleth o Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, neu Brexit, neu hyd yn oed 'Prallan' sy'n derm Cymraeg am Brexit, mae panelwyr profiadol: yn cynrychioli'r Llywodraeth Geidwadol yn Llundain a fydd yn arwian y broses o adael mae Daniel Davies-Evans; o Blaid Cymru mae'r Aelod Seneddol Ewropeaidd, a fydd yn colli ei swydd cyn hir, sef Gwennan Haf Roberts; o'r Blaid Lafur mae'r cynghorydd o Wynedd, Sandra Saunders ac yn ymuno â nhw mae'r ffermwr adnabyddus a bleidleisiodd dros adael yr Undeb Ewropeaidd, Dai James.

Dechreuwn ni gyda chi, Daniel Davies-Evans, dywedwch pryd mae'r llywodraeth yn bwriadu tanio Erthygl 50?

## Daniel Davies-Evans:

Rydyn ni a senedd Prydain wedi cytuno y bydd Theresa May yn tanio Erthygl 50, ac felly yn dechrau ar y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Mae hyn yn golygu y gallwn ni ganolbwyntio ar gael y fargen orau i Brydain ac ymhen dwy flynedd, erbyn diwedd Mawrth 2019, byddwn ni allan o Ewrop! Cyffrous iawn.

## Hywel Holi:

Cyffrous i chi mae'n sicr, ond ddim mor gyffrous i bobl fel Gwennan Haf Roberts a fydd yn colli ei swydd!

## Gwennan Haf Roberts

Mae hynny'n wir Hywel! Unwaith y byddwn ni wedi gadael, fydd gan Brydain ddim cynrychiolydd yn y Senedd Ewropeaidd yn Strasbwrg na Frwsel. Fydd gan Gymru ddim llais yno rhagor chwaith. Felly, mae'n bwysig i fi fod llais Cymru yn dal i gael ei glywed gan lywodraeth Llundain ar ôl i ni adael er, wrth gwrs, byddai'n well gyda fi beidio â gadael o gwbl. Rwy'n meddwl fod Cymru yn gwneud yn dda o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

## Hywel Holi:

Sandra Saunders, fe bleidleisioch chi dros aros yn Ewrop hefyd, ydych chi'n poeni am effaith hyn ar Gymru?

## Sandra Saunders

Wrth gwrs fy mod i'n poeni Hywel. Mae llawer o swyddi yn dibynnu ar werthu pethau i Ewrop, ac mae Cymru yn cael mwy o arian 'nôl o Ewrop nag y mae'n ei dalu i mewn. Felly, hoffwn i gael sicrwydd oddi wrth lywodraeth Prydain y

bydd Cymru yn dal i gael yr un faint o arian gan fod tlodi a sawl problem arall yn bodoli yma.

**Dai James:**

Os ga' i ddod mewn fynna, Hywel, licen i weud hefyd fod angen i ffermwyr barhau i gael yr un taliadau o Brydain ag y cawsant o Ewrop. Ond wy'n meddwl hefyd y bydd bywyd yn llawer gwell nawr o adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Brexit yn mynd i olygu llai o waith papur di-ben-draw fel sydd wedi bod yn dod o Ewrop, a gobeithio mwy o fusnes i ni gyda gweddill y byd.

**Hywel Holi:**

Wel, beth am i ni ofyn hynny i gynrychiolydd y Llywodraeth. Mr Davies-Evans, a fydd llywodraeth Llundain yn dal i roi taliadau teg i ffermwyr? Wedi'r cyfan, roedd ffermwyr Cymru yn cael llawer o arian oddi wrth Ewrop.

**Daniel Davies-Evans**

Byddai rhai'n dadlau fod ffermwyr wedi bod yn derbyn gormod o arian o Ewrop yn y gorffennol, ond gallwch chi fod yn sicr y bydd ffermwyr yn cael taliadau sy'n deg, ar ôl i Brexit ddigwydd.

**Sandra Saunders:**

Mae'n swnio fel addewid gwag i fi ...

**Dai James:**

Wel, wy'n gweud 'tho chi, os na fyddwn ni'n cael yr hyn ry'n ni'n ei haeddu bydd na reiat's 'ma! Bydd tractors yn bloco'r strydoedd ym mhobman, gewch chi weld!

**Hywel Holi:**

Mae'n swnio fel y gallai cryn drwbwl fod ar y gorwel i'ch llywodraeth chi, Daniel Davies-Evans...

**Daniel Davies-Evans:**

Gwrandewch, mae pawb yn mynd i fod yn gofyn am siâr o'r gacen, a'r cyfan y galla' i ei ddweud yw y bydd pawb yn cael cyfran deg ohoni.

**Gwennan Haf Roberts:**

Er mwyn sicrhau bod yna dal gacen i'w rhannu, hynny yw, fod yn dal digon o arian yn dod i mewn i Brydain drwy fuddsoddiad rhyngwladol, dw i'n meddwl bydd y peth pwysig i'w wneud yw aros yn aelod o'r hyn rydyn ni'n ei alw y Farchnad Sengl.

**Hywel Holi:**

Ar gyfer y bobl hynny sy ddim yn gwybod, allwch chi egluro beth ydy'r Farchnad Sengl?

**Gwennan Haf Roberts:**

Â chroeso. Y Farchnad Sengl ydy'r system sy'n bodoli rhwng gwledydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n gadael i nwyddau gael eu prynu a'u gwerthu yn ddiffwdan rhwng gwledydd, a hefyd mae'n golygu fod modd i bobl fynd i weithio mewn unrhyw wlad arall yn y Farchnad Sengl heb orfod cael fisa a llawer o waith papur, sy'n ben tost!

**Sandra Saunders:**

Am unwaith rwy'n cytuno gyda rhywun o Blaid Cymru! Mae Gwennan yn iawn, ac mae modd bod yn aelod o'r Farchnad Sengl heb fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Dyma mae Norwy yn ei wneud.

**Daniel Davies-Evans:**

Mae hynny'n wir, ond mae'n rhaid i Norwy dalu i fod yn y Farchnad Sengl, er nad yw Norwy yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Gallai gorfod talu i fod yn y Farchnad Sengl fod yn ddrud iawn i Brydain.

**Dai James:**

Wel ma' angen i ni barhau gwerthu cig eidion a chig oen i Ewrop, felly well i ti a dy lot yn y llywodraeth dalu, Daniel, neu fydd reiats 'ma, wy'n gweud 'tho chi, reiats...

**Hywel Holi:**

Wel dyna ni wedi rhoi'r byd yn ei le unwaith yn rhagor. Rwy'n siŵr y bydd mwy o drafod ar Brexit yn y dyfodol, ond tan hynny, nos da!

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cynrychioli	sefyll neu weithio dros ardal, sefydliad neu wlad	(to) represent
cynghorydd	aelod sydd wedi ei ethol drwy bleidlais i'r cyngor lleol	councillor
pleidleisio	y broses ddemocrataidd o ddewis cynrychiolwyr	(to) vote
tanio	dechrau proses	(to) trigger
buddsoddiad	arian sydd wedi ei roi i mewn i fenter neu fusnes	investment
y Farchnad Sengl	y system o brynu a gwerthu yn Ewrop	the Single Market
nwyddau	pethau sy'n cael eu prynu a'u gwerthu	goods

## Taith mewn peiriant amser

# The Cymru Times

Degawd Dinistriol

*Dydd Mawrth, Mehefin 23, 2026*

Mae degawd union wedi pasio ers i Brydain bleidleisio o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae bywyd wedi newid yn aruthrol i bobl ar yr ynysoedd hyn ers i Brexit gael ei wireddu, ac nid newid er gwell mohono.

Beth am edrych yn fanylach ar beth yn union sydd wedi newid ers y diwrnod tyngedfennol pan bleidleisiodd pobl ar Fehefin 23, 2016?



Yn gyntaf dylid nodi nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn Deyrnas Unedig! Yn sgil pleidlais Brexit, roedd anniddigrwydd cynyddol yn yr Alban gan fod y wlad honno yn gorfod gadael yr UE er gwaethaf y ffaith fod dros 60% o Albanwyr eisiau aros yn Ewrop. Cynhaliwyd ail refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban o'r Deyrnas Unedig yn 2021 a'r tro hwn fe hawliodd yr Alban annibyniaeth o wladwriaeth Prydain mewn pleidlais agos o 53% i 47%. Cafodd yr Alban ailymuno â'r Undeb Ewropeaidd fel gwlad annibynnol ac mae wedi mynd o nerth i nerth. Mae defnydd yr Alban o'r ewro wedi caniatáu mwy o gynnydd mewn masnach gydag Ewrop a mwy o gyfleoedd gwaith yn y wlad, ond mae'r



Ffederasiwn Prydeinig, sy'n cynnwys Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, wedi gweld tloedi enbyd ers i 2 filiwn o swyddi ddiflannu yn ogystal â rhwystrau mawr i fasnachu a theithio i wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae hyn oll yn ei dro wedi arwain at newidiadau mawr i'r Ffederasiwn Prydeinig yn fyd-eang. Collwyd sedd Prydain ar gyngor diogelwch y Cenhedloedd Unedig ac fe blymiodd gwerth y bunt i fod yn ddiwerth yn ariannol. Roedd hyn yn golygu bod y Banc Rhyngwladol wedi gorfod llenwi coffrau'r wlad, er mwyn achub Y Ffederasiwn Prydeinig yn ariannol. Oherwydd hynny, mae gennym bellach ddyled ariannol rhyngwladol sydd yn y biliynau.

Er bod hynny'n ddigon gwael, gyda channoedd o filoedd o bobl yn cael eu troi o'u cartrefi i lwgu o ddydd i ddydd ar y stryd, daeth diwedd y BBC fel sioc i nifer. Ond heb arian yng nghoffrau'r llywodraeth nac arian gan bobl Prydain i dalu ffi drwydded y BBC bu'n rhaid i'r gorfforaeth ddarlledu ddod i ben.

Yn ogystal â gweld busnesau lu yn gadael Prydain i ail-leoli yn Ewrop, fe gafodd Brexit effaith ar chwaraeon yn yr ynysoedd hyn. Cymerwch uwch-gynghrair Lloegr er enghraifft. Yn sgil y rheolau newydd ar beidio â gadael i weithiwr o dramor symud yma'n hawdd i weithio, nid oedd modd i sêr fel Cesc Fabregas, Sergio Aguero, Diego Costa, Alexis Sanchez a Thibaut Courtois barhau i weithio yn y wlad. Ac yna'n raddol, gyda diffyg arian yn gyffredinol, doedd dim modd i Sky na BT barhau i ariannu'r cynghrair. Prin y gellir ei galw'n un o gynghreiriau gorau Gogledd Ewrop bellach, heb sôn am fod y gorau yn y byd!

Mae'n stori debyg ym myd rygbi hefyd. Gadwaodd y sêr rhyngwladol i chwarae yn Ffrainc, ac mae stad druenus ar Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd bellach. Mae'r lle bron yn adfail. Mae hynny'n wir am ein ffyrdd, ein gorsafoedd trenau a'n canolfannau dinesig hefyd. Mae ein gwlad yn cwmpo'n ddarnau. Mae'n anodd gweld sut all pethau wella. Os ydych chi'n gall, fe geisiwch ganfod gwaith ymhell o'r Ffederasiwn Prydeinig.

# The Cymru Times

**Dathlu'r Degawd**

*Dydd Mawrth, Mehefin 23, 2026*

Mae degawd union wedi pasio ers i Brydain bleidleisio o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae bywyd wedi newid yn aruthrol i bobl ar yr ynysoedd hyn ers i Brexit gael ei wireddu, ac mae'r newid wedi gwella pethau.



Beth am edrych yn fanylach ar beth yn union sydd wedi newid ers y diwrnod tyngedfennol pan bleidleisiodd pobl ar Fehefin 23, 2016?

Roedd yr ymgyrch i aros yn Ewrop yn darogan y byddai'r byd yn dod i ben ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, ond nid felly y bu. Os rhywbeth, rydym wedi gweld cynnydd mewn nifer o swyddi yng ngwledydd Prydain, gyda diweithdra ar ei lefel isaf ers degawdau. Mae cynnyrch a nwyddau wedi mynd yn rhatach i'w prynu yn y siopau ar ôl tanio Erthygl 50 ym mis Mawrth 2017 a chael cytundeb arbennig wrth adael.



Bellach, mae gennym sefyllfa lle mae cwmnïau rhyngwladol yn awchu i leoli eu swyddfeydd yma. Mae ein prifysgolion ymysg rhai gorau cyfandir Ewrop ac mae ein gwyddonwyr yn elwa o biliynnau o bunnau o arian ymchwil yn sgil llwyddiant economaidd y Deyrnas Unedig.

Cafodd yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru fwy o bwerau i'w seneddau eu hunain o fewn Prydain, ac fe sicrhodd hyn fod datganoli'n gweithio'n well. Yn bwysicach byth i Lywodraeth Prydain yn Llundain, mae'r Alban wedi bod yn hapus i aros fel rhan o'r Deyrnas Unedig. Byddai gweld yr Alban yn gadael Prydain yn drychinebus!

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cryfhau ei llais yn y Cenedloedd Unedig hefyd, gyda'r wlad yn cynnig ei hunan i ddatrys rhyfeloedd rhwng gwledydd y byd, a bellach, ar ôl i Brydain gadeirio trafodaethau rhwng Israel a Phalesteina, mae heddwch parhaol yn sgil setliad trafodaethau Llundain, 2025.

Ond i ni yng Nghymru, efallai mai'r peth gorau a ddigwyddodd oedd fod ein chwaraewyr rygbi i gyd wedi dod yn ôl i chwarae yng Nghymru. Mae'n rhaid mai hyn sy'n cyfri am y ffaith fod Cymru wedi ennill y Gamp Lawn dair gwaith yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r gobaith yn uchel y gallwn gipio'r Cwpan y Byd nesaf yn Unol Daleithiau America.

## Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
tyngedfennol	digwyddiad sy'n newid cwrs hanes	fateful
anniddigrwydd	bod yn anhapus gyda rhywbeth	discontent
annibyniaeth	bod yn rhydd i benderfynu drosoch eich hun	independence
ffederasiwn	casgliad o ranbarthau neu wledydd	federation
corfforaeth	sefydliad sy'n rheoli rhywbeth	corporation
diweithdra	bod heb waith	unemployment
darogan	rhagweld y dyfodol	(to) predict
elwa	gwneud arian neu lwyddo	(to) benefit
trychinebus	rhywbeth sy'n cael effaith wael iawn	disastrous
datrys	canfod ateb i broblem	(to) solve

## Cyfarfod rhwng y Celtiaid

**Anfonwyd:** Dydd Iau, 01 Rhagfyr 2016 10:23

**Oddi wrth:** nicola.sturgeon@llywodraeth.alban.sco

**At:** carwyn.jones@llywodraeth.cymru.cym,  
arlene.foster@llywodraeth.gogledd-iberddon.co.uk

Carwyn ac Arlene,

Ysgrifennaf atoch gan fy mod yn teimlo ei bod hi'n bwysig ein bod ni fel arweinwyr llywodraethau datganoledig ynsoedd Prydain yn cydlynu ein hymateb i Lywodraeth Llundain. Mae'n bwysicach nag erioed i ni sefyll gyda'n gilydd er budd pobl ein gwledydd ni o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r ffaith fod fy ngwlad i wedi pleidleisio dros aros yn Ewrop, yn rhoi llaw gref i mi wrth fargeinio ar ran yr Alban. Os oes rhaid i ni ofyn am ail refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban, a bod hynny yn ffordd o aros yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, yna rwy'n barod i wneud hynny.

Mae llawer i'w drafod, awgrymaf yn gryf ein bod yn cwrdd i drafod wyneb yn wyneb.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich.

Nicola Sturgeon,

Prif Weinidog yr Alban

**Anfonwyd:** Dydd Gwener, 02 Rhagfyr 2016 10:23

**Oddi wrth:** carwyn.jones@llywodraeth.cymru.cym

**At:** nicola.sturgeon@llywodraeth.alban.scot,  
arlene.foster@llywodraeth.gogledd-iberddon.n.ire

Nicola ac Arlene,

Diolch i ti, Nicola, yn gyntaf am estyn mas i drafod gyda mi. Rwy'n siŵr fod Arlene yn gwerthfawrogi hynny hefyd. Rwyf fi mewn sefyllfa wahanol i chi, Nicola ac Arlene, gan fod Cymru wedi pleidleisio dros adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydych yn gwybod fy mod i wedi ymgyrchu i ni aros yn yr Undeb,

ond mae'n rhaid i fi barchu awydd ein pobl i adael Ewrop. Serch hynny, mae aros yn y Farchnad Sengl, sef, fel y gwyddoch, y system sy'n caniatáu i ni fasnachu a symud yn hawdd a rhydd drwy Ewrop, yn hanfodol i Gymru. Mae Cymru yn allforio llawer o bethau, o ddu i gig i Ewrop ac mae'n dibynnu ar weithiwr o Ewrop i atgyfnerthu ein heconomi.

Yn sicr, mae llawer i'w drafod felly rhaid i ni gyfarfod ar fyrder i drafod y manylion. Mae angen i ni siarad ag un llais wrth ddelio gyda Llundain.

Yn gywir,

Carwyn Jones,

Prif Weinidog Cymru

**Anfonwyd:** Dydd Sadwrn, 03 Rhagfyr 2016 10:24

**Oddi wrth:** [arlene.foster@llywodraeth.gogledd-iwerddon.co.uk](mailto:arlene.foster@llywodraeth.gogledd-iwerddon.co.uk)

**At:** [Carwyn.jones@llywodraeth.cymru.cym](mailto:Carwyn.jones@llywodraeth.cymru.cym),

[nicola.sturgeon@llywodraeth.alban.sco](mailto:nicola.sturgeon@llywodraeth.alban.sco)

Carwyn a Nicola,

Rwy'n cytuno gyda ti, Carwyn, ei fod yn beth i ni drafod. Gorau po gyntaf y medrwn gwrdd gan fod cryn dipyn i'w drafod. Er bod Lloegr a Chymru wedi pleidleisio dros adael, fe gafwyd pleidlais gref yng Ngogledd Iwerddon o blaid aros yn Ewrop, ac felly rhaid i mi barchu dymuniad fy mhobl hefyd. Fy mhryder mwyaf yw bod y dyddiau o derfysg ac ymladd yn ail-ddechrau yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r heddwch rydyn ni wedi ei sefydlu wedi cymryd mor hir i'w gyrraedd fel bod cadw'r heddwch yn hanfodol. Fe wyddoch mae'n siŵr fod y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn mynd i fod yn ffin rhwng Ynysoedd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd. Gall hynny achosi pob math o anawsterau.

Oes wir, mae llawer i'w drin a'i drafod.

Yn ddiffuant,

Arlene Foster,

Prif Weinidog Gogledd Iwerddon

**Geirfa**

<b>Cymraeg</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Saesneg</b>
datganoledig	o dan reolaeth ranbarthol neu leol	devolved
bargeinio	trafod er mwyn cyrraedd cytundeb	(to) bargain
refferendwm	pleidlais genedlaethol i ofyn barn y bobl	referendum
ymgyrchu	gweithio dros achos penodol	(to) campaign